**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM

Cyfarfod am 18.30, dydd Mawrth 7 Mawrth 2017, Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel

## COFNODION

**Yn bresennol:** David Rees AC, Nick Ramsay AC, Huw Irranca Davies AC.

Aelodau allanol: Dr Stephen Benn, yr Athro Ian Wells, yr Athro Faron Moller, Dr Paul Hutchings, Keith Jones, Dave Jones, yr Athro Keith Smith, Dave Harwood, Rebecca Davies, Dr Rob Janes, Dr Geertje van Keulen, Lesley Kirkpatrick, Cerian Angharad, Dr David Cunnah , yr Athro Mike Edmunds, Dr Lucy Meredith a Leigh Jeffes.

### Croeso

Croesawodd Nick Ramsay AC, yr Is-gadeirydd, bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y siaradwr gwadd, sef yr Athro Wendy Dearing, a'r aelodau newydd: Lesley Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol Techniquest a Dr Lucy Meredith, Deon y Gyfadran Gyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth, Prifysgol De Cymru.

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Oddi wrth: Simon Thomas AC, Bob Cater, Dr Rhobert Lewis, Helen Francis, a Rhys Phillips

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2016

Mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu a chawsant eu llofnodi gan yr Is-gadeirydd fel cofnod cywir.

### Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad, 6 Mehefin 2017**

Amlinellodd Leigh Jeffes y trefniadau ar gyfer digwyddiad eleni, gyda'r thema o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd. Bydd gwahoddiadau i gofrestru ar-lein yn cael eu dosbarthu ar ôl y Pasg. Mae rhaglen y siaradwyr yn cael ei gwblhau a rhagwelir arddangosfa capasiti.

**Pynciau i'w trafod yng nghyfarfodydd mis Gorffennaf a mis Tachwedd**

Bydd cyflwyniad gan Lesley Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol Techniquest yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ac o bosibl sgwrs ar y pwnc 'Data Mawr'. Mae awgrymiadau ar gyfer pynciau ym mis Tachwedd yn cael eu croesawu.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Rhoddodd cynrychiolwyr y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am eu gweithgareddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Cyflwyniad**: Yr Athro Ian Wells, Pennaeth yr Ysgol Cyfrifiadureg Gymhwysol, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a'r Athro Wendy Dearing, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

Gwahoddodd David Rees AC, a oedd yn gweithredu fel y Cadeirydd, yr Athro Wells a'r Athro Dearing i roi eu cyflwyniad ar: "Wales Institute of Digital Information: A Strategic Professionalisation of the NHS Wales IT workforce"

Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd Ian a Wendy am eu cyflwyniadau.

**Unrhyw fater arall**

Nid hysbyswyd y Cadeirydd o unrhyw fater arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Mawrth 4 Gorffennaf am 18.30

**Dod â'r cyfarfod i ben**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 19.50

*Leigh Jeffes, 7 Ebrill 2017*